

Trefniadau trwyddedu ar gyfer rhoi trwyddedau i ladd neu gymryd adar (nad ydynt yn bysgysol)

Canllawiau

Y pŵer i roi trwydded

- 1) Mae Adran 1 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn amddiffyn pob aderyn gwyllt. Mae Adran 5 o'r Ddeddf yn gwahardd defnyddio rhai dulliau i ladd neu gymryd adar gwyllt, gan gynnwys defnyddio trapiau (gweler paragraff 6 am ddulliau gwaharddedig eraill). Fodd bynnag, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yr awdurdod dan Adran 16(1) i roi trwyddedau i ladd neu gymryd adar gwyllt, os nad oes ateb boddhaol arall, at y dibenion canlynol:
 - (a) Atal difrod difrifol i dda byw, porthiant da byw, cnydau, llyisiau, ffrwythau, coed yn y pridd, pysgodfeydd neu ddyfroedd mewndirol;
 - (b) Atal clefydau rhag lledu;
 - (c) Diogelu iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd neu'r aer; a
 - (d) Gwarchod adar gwyllt.

Cyn belled â bod yr adar yn cael eu lladd neu eu cymryd yn unol ag amodau'r drwydded, ni fydd y gwaharddiadau yn Adran 1 a 5 y Ddeddf yn gymwys.

Trefniadau ar gyfer rhoi trwyddedau

- 2) Mae CNC wedi gwneud y trefniadau canlynol ar gyfer rhoi trwyddedau:
 - (a) Rhoddir trwyddedau fel arfer i'r perchennog neu'r deiliad neu i unigolyn sydd wedi'i awdurdodi gan y perchennog neu'r deiliad; a
 - (b) Fel arfer, rhoddir trwyddedau sy'n ymwneud â saethu adar i ategu dulliau dychryn yn unig.

Difrod difrifol

- 3) Rhaid bodloni'r amodau canlynol cyn yr ystyrir rhoi trwydded at ddibenion atal difrod difrifol:
 - (a) Rhaid i bob ymgeisydd ddarparu tystiolaeth fanwl bod difrod difrifol yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd. Gallai hynny gynnwys tystiolaeth a gasglwyd o brofiadau blynyddoedd blaenorol ac unrhyw wybodaeth ynghylch nifer yr adar sy'n bresennol ar hyn o bryd;
 - (b) Gall staff technegol CNC neu asiant CNC ymweld â safle'r difrod honedig wrth asesu'r cais er mwyn gwirio'r wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen gais (WCA20) a thrafod pynciau megis mesurau ataliol a ddefnyddir ar hyn o bryd neu a ddefnyddiwyd yn y gorffennol. Ni roddir trwyddedau oni bai bod dulliau dychryn nad ydynt yn rhai marwol neu rwystrau amddiffynnol yn cael eu defnyddio lle bo'n rhesymol ac yn ymarferol gwneud hynny.

Amodau trwydded

4) Bydd yr amodau canlynol yn berthnasol:

- (a) Bydd uchafswm yr adar neu'r wyau y gellir eu lladd neu eu cymryd dan y drwydded wedi'i nodi arni. Rhaid anfon datganiad o'r nifer a laddwyd neu a gymerwyd (hyd yn oed os mai dim yw'r nifer honno) at CNC i **gyrraedd ddim hwyrach na'r 14eg diwrnod ar ôl i'r drwydded ddod i ben**;
- (b) Bydd y drwydded yn nodi am ba gyfnod y mae'n ddilys;
- (c) Os yw'r drwydded ar gyfer saethu adar, nid yw trwydded ynddi ei hun yn rhoi hawl i ddeiliad y drwydded saethu o fewn ardal y drwydded; deiliad y drwydded sydd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion sy'n ymwneud â Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) neu Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG) (Adrannau 28 a 35 o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981). (Gweler cwestiwn 5 ar y ffurflen gais (WCA20));
- (d) Bydd hawl gan ddeiliaid y drwydded roi awdurdod ysgrifenedig i bump o bobl eraill saethu adar dan y drwydded, neu chwech os nad yw deiliad y drwydded yn cymryd rhan yn y gwaith o ladd neu gymryd adar; lle bo'r drwydded yn caniatáu defnyddio drylliau, ni chaiff deiliad y drwydded roi awdurdod i neb dan 18 oed heb ganiatâd penodol gan CNC; deiliad y drwydded sy'n gyfrifol am yr holl weithgareddau a gyflawnir dan y drwydded.
- (e) Mae'n bosibl na fydd CNC yn rhoi trwydded i unigolyn sydd heb gydymffurfio â thelerau trwydded flaenorol; gellir atal neu ddirymu trwyddedau unrhyw bryd a bryd hynny, dylid eu hildio i CNC yn ddiymdroi.
- (f) Gellir pennu amodau eraill fel bo'n briodol

Troseddau

5) O dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 gellir erlyn deiliad y drwydded am drosedd os yw'n methu â chydymffurfio â thelerau'r drwydded.

Dulliau gwaharddedig

6) Dylai ymgeiswyr nodi bod Adran 5 Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 yn gwahardd defnyddio rhai ffyrdd o ladd a chymryd adar gwylt. Y dulliau gwaharddedig yw: trapiau sbring, magl, bachyn a lein, dyfeisiau trydan, sylweddau gwenwynllyd, sylweddau wedi'u gwenwyno neu sylweddau cysgu, unrhyw rwyd, bwrdd abwyd, calch adar neu sylweddau tebyg, bwa saeth neu fwa croes, ffrwydron heblaw bwledi a chetris ar gyfer dryll, gynau hela â barilau diamedr mawr, arfau awtomatig a lled-awtomatig sy'n gallu dal mwy na 2 rownd yn y magasîn, dyfeisiau ar gyfer goleuo targed neu ddyfais gweld ar gyfer saethu gyda'r nos, goleuadau artiffisial, drychau neu ddyfeisiau dallu eraill, nwy a mwg, cyfryngau gwlychu cemegol, recordiadau sain, adar byw wedi'u rhwymo neu eu hanffurfio sy'n cael eu defnyddio i ddenu a cherbydau a yrrir gan beiriant i ymlid adar.

Ymgynghori

- 7) Mae'n ofynnol i CNC ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar bolisi trwyddedu ac o dan ba amgylchiadau y gellir rhoi trwyddedau. **Gall hyn effeithio ar eich cais.**
- 8) Nid oes angen ymgynghori'n unigol ar bob cais ond pan fo ymgynghori yn briodol bydd CNC yn datgelu rhai manylion sydd ar y ffurflen gais a manylion yr ymweliad â'r safle i Llywodraeth Cymru er mwyn iddynt allu rhoi cyngor priodol i CNC. Mae CNC wedi cytuno i beidio â datgelu manylion o'r fath i drydydd partïon. Bydd y manylion hyn yn ymwneud yn bennaf â nifer a rhywogaeth yr adar sy'n bresennol, y dulliau ataliol a defnyddiwyd, y

math o ddifrod a maint y difrod a achoswyd gan yr adar, a chyfeirnod grid lleoliad y safle. Ni ddatgelir manylion personol, megis eich enw a'ch cyfeiriad preifat ac unrhyw fanylion o natur ariannol e.e. gwerth cynydau a ddifrodwyd ac ati ond byddant yn parhau'n gyfrinachol i CNC.

Trin eich gwybodaeth

9) Bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud â'ch cais am drwydded yn cael ei phrosesu a'i rheoli gennym ni yn unol â'n rhwymedigaethau a'n dyletswyddau o dan:

- Ddeddf Diogelu Data 1998;
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004; a
- Phob deddf arall sy'n ymwneud â mynediad i wybodaeth.

O ystyried hyn, gall eich gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, fod yn destun cais gan aelod arall o'r cyhoedd. Wrth ymateb i geisiadau o'r fath mae'n bosibl y gofynnir i ni ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol. Bydd ein hymateb i geisiadau o'r fath yn cydymffurfio â'r canllawiau a ddarparwyd gan God Ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Cyhoeddir y cod ar y rhwyngwyd yn: www.gwybodaeth.cymru.gov.uk

Os daw cais i law o dan ddeddfwriaeth gweld gwybodaeth i weld unrhyw wybodaeth a gawsom gennych ynghylch eich cais am drwydded, byddwn yn eich holi yn gyntaf cyn penderfynu sut i ymateb i'r cais.

I gael gwybodaeth bellach am y data personol a gasglwyd a'r defnydd a wnaed ohono, os oes gennych unrhyw bryderon am gywirdeb data personol, neu os dymunwch fanteisio ar unrhyw rai o'ch hawliau o dan y ddeddfau uchod, dylech gysylltu â:

- Swyddog Mynediad i Wybodaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ty Cambria, 29 Ffordd Casnewydd Caerdydd, CF24 0TP, neu ebostio timmas@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu ffonio 0300 065 3000
- Gellir cysylltu â llinell gymorth Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth ar 029 2067 8400 neu ar or at www.ico.gov.uk

Deddf Diogelu Data 1998: Hysbysiad Preifatrwydd

- 13) Trwy roi'r wybodaeth y gofynnir amdani ar y ffurflen gais hon, byddwch yn rhoi'ch data personol – er enghraifft, eich enw a'ch cyfeiriad – i ni. Bydd CNC'n rheoli ac yn defnyddio'ch data personol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.
- 14) Mae'r hysbysiad yn esbonio sut y bydd CNC'n defnyddio'r data personol sydd wedi'u darparu ar y ffurflen hon neu unrhyw ddata personol eraill y gallech fod wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru wrth wneud cais am drwydded.
- 15) Caiff eich data personol eu defnyddio'n bennaf i brosesu'ch cais a phenderfynu arno. Er hynny, gallai CNC (neu ei hasiantwyr) ddefnyddio'r wybodaeth at ddibenion eraill. Yn arbennig, gellir defnyddio'r wybodaeth at y dibenion canlynol:
 - Trawsgydymffurfio a chroes wirio rhwng partneriaid i sicrhau na thorrir rheolau'r cynlluniau y maent yn eu gweinyddu.

- Caniatáu partneriaid statudol i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol
- Archwilio a monitro
- Cyhoeddi peth gwybodaeth ac ymateb i geisiadau am wybodaeth.

16) Byddwn yn cadw'ch data personol am chwe mlynedd ar ôl y dyddiad y daw'ch trwydded i ben neu ddyddiad gwrthod y cais hwn. Yna difethir eich data personol yn ofalus.

Sut i wneud cais am drwydded

17) Dylid gwneud cais am drwydded ar ffurflen WCA20. Dylid ei llenwi a'i hanfon at CNC at y cyfeiriad islaw:-

**Tîm Gwarchod Rhywogaethau,
Cyfoeth Naturiol Cymru,
Maes y Ffynnon,
Penrhosgarnedd,
Bangor,
LL57 2DW**

Ffon. 03000653000

neu e-bostiwch eich ffurflen gais i trwyddedrhywogaeth@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Yn y ddogfen hon mae "Cyfoeth Naturiol Cymru" yn golygu Corff Adnoddau Naturiol Cymru a sefydlwyd gan erthygl 3 Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. Trosglwyddodd Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 swyddogaethau perthnasol Cyngor Cefn Gwlad Cymru a swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru.